# COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH

## BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL Y CABINET

## 21 MAWRTH 2024

**Aelodau'r Cabinet:**

Y Cynghorwyr: J.Hale, S.Harris ac A.Llewelyn

**Swyddogion yn Bresennol:**

A.Jarrett, A.Thomas, C.Howard, K.Warren,Ms.N.Aleksanyan, P.Chivers, J.Hodges, C.Howard, A.Jarrett, S.McCluskie, N.Jones, Ms.M.Selby, A.Thomas, V.Smith, S.Waite a K.Warren

**Gwahoddedigion Craffu:**

C Galsworthy a H C Clarke

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Llywelyn yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion 21 Medi 2023, 25 Ionawr 2024 a 2 Chwefror 2024.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 23/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

7. **ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTEROL CHWARTER 3**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

8. **CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGOL AR GYFER NIWROWAHANIAETH (AWTISTIAETH A CHYFLYRAU ERAILL) GWASNAETHAU CYMDEITHASOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2024-2027**

**Penderfyniad:**

Bod yr Aelodau'n rhoi caniatâd i Swyddogion gynnal cyfnod ymgynghori cyhoeddus 90 niwrnod ar gyfer Cynllun Gweithredu Strategol drafft Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Niwrowahaniaeth 2024-27 fel y nodwyd yn Atodiad 1.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig**

Bydd y strategaeth yn hyrwyddo newid diwylliannol fel bod y gymuned a'r gwasanaethau'n ddeallgar ac yn groesawgar i unigolion, teuluoedd a gofalwyr niwroamrywiol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **Y SIARTER RHIANTA CORFFORAETHOL**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Siarter Rhianta Corfforaethol, fel y nodwyd yn Atodiad 3.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig**

Sicrhau bod y Cyngor wedi ymrwymo i Siarter Llywodraeth Cymru fel Rhiant Corfforaethol da.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.
.

10. **POLISI AR GYFRANIADAU ARIANNOL AR GYFER LLETY DROS DRO**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu polisi codi tâl sy'n gysylltiedig â chyfraddau'r LTLl, ar gyfer darparu Llety Dros Dro i'r aelwydydd hynny nad ydynt yn derbyn Budd-dal Tai.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig**

Sicrhau bod proses dryloyw a theg ar gyfer pennu ffioedd ar gyfer darparu Llety Dros Dro.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

13. **GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

14. **BWRDD CYNLLUNIO ARDAL BAE'R GORLLEWIN: TREFNIADAU CONTRACT 2024/2025 AR GYFER YSTOD O WASANAETHAU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

15. **CONTRACT PRYNU YN ÔL Y GALW AR GYFER DARPARIAETH GOFAL A CHEFNOGAETH MEDDIANNAETH UNIGOL**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

16. **ADRODDIAD Y RHEOLWR AM GARTREF DIOGEL I BLANT HILLSIDE**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

17. **DIWEDDARIAD AR REOLIADAU GWASANAETHAU RHEOLEIDDIEDIG (DARPARWYR GWASANAETHAU AC UNIGOLION CYFRIFOL) (CYMRU) 2017 A CHARTREFI DIOGEL I BLANT HILLSIDE**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

18. **TREFNIADAU COMISIYNU AR GYFER DATBLYGU GWASANAETH YMATEB SYMUDOL CNPT**

**Penderfyniad:**

Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymrwymo i gontract gyda Llesiant Delta Wellbeing er mwyn cyflwyno cynllun Peilot Ymateb Symudol pellach, o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025 i'w ddarparu i bob ardal yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Er gwybodaeth, yn unol â Rheol 7.2 y Weithdrefn Contractau, fod y gofyniad am dendro cystadleuol yn cael ei eithrio ar gyfer y dyfarniad uniongyrchol i Llesiant Delta Wellbeing, gan ei fod yn gontract gwasanaeth gofal cymdeithasol yn unol â Rheol 7.1.11 y Weithdrefn Contractau.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Mae angen penderfyniad ar yr argymhelliad i alluogi cynnydd mewn perthynas ag agenda CNPT ar gyfer ymateb priodol ac amserol i gwympiadau fel rhan o strategaeth atal cwympiadau ehangach. Nid yw'r amserlenni tynn a osodir gan y trefniadau cyllido'n caniatáu caffael trwy dendr ar hyn o bryd. Efallai bydd datblygu gwasanaeth mewnol yn cynnig ateb mwy cost-effeithiol neu beidio, fodd bynnag, nid yw'n bosib ei gyflawni yn yr amserlen, ac nid oes gennym yr isadeiledd ar hyn o bryd i gefnogi hyn yn ddiogel. Bydd cyflwyno i'r farchnad agored ar hyn o bryd yn achosi oedi a diffyg parhad y gwasanaeth ymateb symudol sy'n datblygu, gan arwain at golli momentwm. Bydd dyfarniad uniongyrchol am flwyddyn yn sicrhau parhad ac amserlen realistig ar gyfer cwmpasu a gweithredu'r datrysiad tymor hwy.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**